ESGOBAETH LLANELWY

TYFU **FFYDD** • DOD Â **GOBAITH** • DANGOS **CARIAD**

GROW **FAITH** • BRING **HOPE** • DEMONSTRATE **LOVE**

DIOCESE OF ST ASAPH

# CANLLAWIAU I YMDDIRIEDOLWYR
## ARDAL GENHADAETH




SH






AVOW
AVOW




IN
MEMORY
OF
Wife of William




GRO

# Cynnwys


Beth yw diben y ddogfen hon? 05
Geirfa Dermau 05

## Yr Ardaloedd Cenhadaeth

Beth yw Ardal Genhadaeth? 06
Beth mae Ardal Genhadaeth yn ei wneud? 06
Strwythur Ardal Genhadaeth 07

## Ymddiriedolwyr

Beth mae bod yn ymddiriedolwr yn ei olygu? 08
Prif Ddyletswyddau Ymddiriedolwr 08

## Bwrdd Yr Ymddiriedolwyr

(Cynhadledd Ardal Genhadaeth)

Beth yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth [MAC])? 10
Bod yn Gymwys i ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 10
Beth yw prif feysydd ffocws gwaith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 10
Cymryd penderfyniadau fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 10
Sut mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn gweithio 11
Aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 11
Swyddogaethau Penodol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 12
Is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 14
- **A** Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth (MAE [Misson Area Executive]) 14
- **B** Yr Is-bwyllgor Eiddo 14
- **C** Yr Is-bwyllgor Cyllid 15
- **D** D Y Tîm Gweinidogaeth a Rennir ([SMT] Shared Ministry Team]) 16
- **E** Is-bwyllgorau'r Eglwys 16

## Atodiadau

**Atodiad 1** Datganiad Cymhwysedd Ymddiriedolwr 18
**Atodiad 2** Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) 19
**Atodiad 3** Gwrthdaro Buddiannau Ymddiriedolwr 20
**Atodiad 4** Sut mae'r Is-bwyllgor Eiddo'n gwneud ei waith? 20
**Atodiad 5** Goruchwyliaeth Prosiect 21
**Atodiad 6** Canllaw i Benseiri yn dilyn Cymeradwyaeth y Ffacwlti 21
**Atodiad 7** Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer Swyddog Eglwys 22

# Beth yw diben y ddogfen hon?


Bwriad y ddogfen hon yw eich helpu yn eich swydd fel Ymddiriedolwr eich Ardal Genhadaeth (Cynrychiolydd Cynhadledd Ardal Genhadaeth). Nod y ddogfen hon yw egluro dyfnder ac eangder y swydd bwysig hon a'r cyfrifoldebau cyfreithiol sydd ynghlwm â hi, yn ogystal â chyflwyno trosolwg o ddiben Ardal Genhadaeth a rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth) wrth ei gyrru. Byddwn, felly, yn gofyn i chi darllen y ddogfen yn drwyadl er mwyn eich gwarchod chi'ch hunain a'r Ardal Genhadaeth[1].

Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd cydnabod y cyfleoedd sy'n dod gyda'r swydd hon i yrru diben, cenhadaeth a gwaith yr Ardal Genhadaeth benodol yr ydych yn dal y swydd ynddi. Heb fod yn deall yn iawn pam eich bod yn gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud, gallai bod yn ymddiriedolwr ymddangos yn rhestr ddi-fflach o dasgau sydd angen eu gwneud. Dylech chi a'ch cyd Ymddiriedolwyr ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ystyried y credoau sy'n sail i waith eich Ardal Genhadaeth chi, yn ogystal â sut rydych chi eisiau i'ch Ardal Genhadaeth chi weithio gyda'i gilydd, gyda'r rhai sy'n mynychu'r eglwys a'r rhai nad ydyn nhw. Gallai meddwl am ychydig o gredoau sylfaenol eich helpu i ddechrau gynnwys:

- **Rydyn ni'n  credu fod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn ein Hardal Genhadaeth yn gwasanaethu Duw.**
- **Rydyn ni'n credu fod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn ein Hardal Genhadaeth yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r rhai sy'n defnyddio'n gwasanaethau ac adeiladau.**
- **Rydyn ni'n credu fod elusen sy'n cael ei rhedeg yn dda yn darparu gwasanaeth gwell i'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.**
- **Rydyn ni'n credu fod stiwardiaeth effeithiol o'n hadnoddau yn rhan hanfodol o'n ffydd**

Wrth gwrs, efallai y byddwch eisiau ychwanegu rhagor neu addasu'r rhain i siwtio'ch cyd-destun penodol chi.

O ran y cwestiwn o beth sy'n sail i'ch gwaith fel Ymddiriedolwr ac fel aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr eich Ardal Genhadaeth chi, efallai y byddwch yn cael y tri ymadrodd sydd wedi'u mabwysiadu gan Bwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer canolbwyntio'ch sylw:




Efallai yr hoffech ychwanegu rhai eraill hefyd ond os allwch chi ond defnyddio'r tri pheth uchod, byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu.

Nawr, rydym yn troi'n sylw at ystyried yn fwy cyffredinol pam fod Ardaloedd Cenhadaeth wedi datblygu, swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a gwaith Bwrdd yr

### Geirfa Dermau

| | |
|---|---|
| MAL | Arweinydd Ardal Genhadaeth |
| MAA | Gweinyddwr Ardal Genhadaeth |
| MAW | Warden Ardal Genhadaeth |
| MAT | Trysorydd Ardal Genhadaeth |
| MAS | Ysgrifennydd Ardal Genhadaeth |
| MAGAS | Ysgrifennydd Rhodd Cymorth Ardal Genhadaeth |
| MAC | Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth) |
| MAE | Pwyllgor Gwaith Ardal Genhadaeth |
| SMT | Tîm Gweinidogaeth a Rennir |
| Ymddiriedolwr | Cynrychiolydd y Gynhadledd Ardal Genhadaeth |
| Bwrdd yr Ymddiriedolwyr | Cynhadledd Ardal Genhadaeth (MAC) |

[1]Cofwch fod y Gyfraith Elusennau'n gallu newid o dro i dro. Roedd y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

# Yr Ardal Genhadaeth

### Beth yw Ardal Genhadaeth?

I ddechrau rhaid i ni drafod y syniadau y tu ôl i greu Ardaloedd Cenhadaeth. Craidd Gweledigaeth 2020 oedd yr argymhelliad y dylai'r Eglwys yng Nghymru symud y tu hwnt i'n system o blwyfi a deoniaethau i greu Ardaloedd Cenhadaeth. Ar un adeg roedd pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio'u bywydau yn yr un plwyf, ac yn aml, roedd gan bob plwyf ei glerigion ei hunan. Roedd gan blwyfi perthynas glos â'u cymuned leol – sy'n dal yn werthfawr – a daeth yn arfer bod yn hunan gynhaliol. Anaml iawn yr oedd pobl yn edrych y tu hwnt i ffiniau eu plwyf. Heddiw, mae ein diwylliant yn wahanol iawn gyda phobl yn teithio'n rhydd ac yn perthyn i gymunedau ar draws ardal llawer ehangach. Mae Ardaloedd Cenhadaeth yn adlewyrchu'r realiti newydd trwy helpu i gysylltu eglwysi gyda'u cymuned ehangach. Mae'r Eglwys pob amser wedi ceisio gwasanaethu'i chymuned, ond wrth i'r cymunedau hynny newid, felly hefyd mae'r ffordd rydyn ni'n cysylltu â nhw newid. Felly, grŵp o gymunedau eglwysig yw Ardal Genhadaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i rannu Newyddion Da Iesu Grist gyda chymdogaeth benodol, yn mynd allan i'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu yn hytrach nag edrych yn fewnol. Wrth weithio gyda'i gilydd, gallai'r eglwysi hyn rannu adnoddau ac arweinyddiaeth er mwyn cyflawni'n cenhadaeth a'n galwad fel pobl Dduw.

### Beth mae Ardal Genhadaeth yn ei wneud?

Mae Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru'n diffinio rôl Ardal Genhadaeth fel:

*"Hyrwyddo cenhadaeth gyfan yr Eglwys, yn fugeiliol, efengylaidd, cymdeithasol ac eciwmenaidd"*

- Bugeiliol – **gofalu am bobl - 'Dangos Cariad"**
- Efengylaidd – **sôn wrth bobl am Iesu a Duw - 'Tyfu Ffydd'**
- Cymdeithasol – **gwahodd pobl i fod yn rhan o deulu'r eglwys, a gwasanaethu'r cymunedau sy'n ffurfio'r Ardal Genhadaeth - 'Dod â Gobaith'**
- Eciwmenaidd – **gweithio gyda sefydliadau ffydd eraill wrth wasanaethu ein cymunedau**

Efallai y byddwch eisiau gweithio gyda'ch gilydd i drafod sut mae gwaith yr Ardal Genhadaeth yn cyd-fynd â'r nodau hyn. Efallai bydd pedwar P Arwain eich Eglwys i Dwf yn declyn defnyddiol i ddefnyddio ar gyfer yr ymarfer hwn (**www.leadingyourchurchintogrowth.org.uk**).

### Rhestr Wirio

- ⬡ **Rwy'n deall nodau'r Ardal Genhadaeth.**
- ⬡ **Rwy'n ymwybodol o'r cynlluniau i helpu'r Ardal Genhadaeth i gyflawni'r nodau hynny.**



# Strwythur Ardal Genhadaeth

## Is-bwyllgor Eiddo

Pwerau dirprwyedig (a therfynnau gwariant) i oruchwylio materion eiddo gan gynnwys cynllunio strategol ar gyfer eiddo, cyfadrannau, archwiliadau pob pum mlynedd.

## Tîm Rhannu Gweinidogaeth

Pwerau dirprwyedig i oruchwylio materion gweinidogaethol gan gynnwys darparu gwasanaethau eglwysig, mynegiant ffres, caplaniaeth, gweinidogaeth ieuenctid a phlant, gofal bugeiliol a phrofedigaeth ayb. Hefyd, darparu geirda ar gyfer galwedigaethau.

## Is-bwyllgor Cyllid

Pwerau dirprwyedig (a therfynnau gwariant) i oruchwylio materion cyllid gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, dyrannu Cyfran, buddsoddiadau, ceisiadau grant a threuliau cyffredin yr Ardal Genhadaeth.

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

Yn gyfrifol am yr holl faterion ynghylch rhedeg yr Ardal Genhadaeth.

## Pwyllgor Gwaith Ardal Genhadaeth (MAE)

Is-grŵp o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ymdrin â rhaglenni cyfarfodydd a sefyllfaoedd sy'n gofyn am ymateb cyn cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## Pwyllgorau Eglwys

Hawliau dirprwyedig (a therfynnau gwariant) i oruchwylio materion o ddydd i ddydd ynghylch rhedeg yr eglwys gan gynnwys paratoi ar gyfer a darparu gwasanaethau eglwysig, mân drwsiadau, Iechyd a Diogelwch, codi arian, y rhestr etholiadol ayb. Mae Pwyllgor Eglwys yn gallu goruchwylio mwy nag un eglwys os oes angen.

*Gallai grwpiau eraill fodoli i ddarparu cefnogaeth e.e. cabidwl clerigion, tîm ieuenctid, grwpiau gweddi ayb. Mae'r grwpiau hyn yn darparu gwasanaeth bwysig i'r Ardal Genhadaeth ond nid ydyn nhw'n yn rhan o'r strwythur llywodraethu.*

# Ymddiriedolwyr

**Beth mae bod yn ymddiriedolwr yn ei olygu?**

Mae ymddiriedolwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad i gefnogi'r Ardal Genhadaeth, gan ei helpu i gyflawni ei nodau. Mae bod yn ymddiriedolwr yn golygu cymryd penderfyniadau a fydd yn effeithio ar fywydau pobl, yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol a / neu'r gymdeithas yn eu chyfanrwydd. Mae gan ymddiriedolwyr reolaeth gyffredinol o Ardal Genhadaeth ac mae'n gyfrifol am sicrhau ei bod yn gwneud yr hyn y'i sefydlwyd i'w wneud. Gan ymddiriedolwyr y mae, ac mae'n rhaid derbyn hynny, yr atebolrwydd terfynol am gyfeirio busnes Ardal Genhadaeth a chyflawni'r canlyniadau elusennol y mae wedi'i sefydlu ar eu cyfer. Mae hyn yn gyfrifoldeb sydd wedi'i rhannu / ar y cyd nad yw'n gallu cael ei drosglwyddo i un neu ddau o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Byddwch wedi llofnodi datganiad (Ffurflen ddatganiad cymhwysedd Ymddiriedolwr (publishing.service.gov.uk) (neu gweler atodiad 1) i ddweud nad ydych wedi'ch eithrio rhag bod yn Ymddiriedolwr Elusen.

**Yn benodol, mae gan Ymddiriedolwyr Ddyletswydd Doethineb i:**

- sicrhau fod yr Ardal Genhadaeth yn cael ei rhedeg yn dda ac y bydd yn aros yn ddiddyled
- ddefnyddio arian ac asedau'n rhesymol – dim ond er mwyn hyrwyddo amcanion yr Ardal Genhadaeth y dylid defnyddio arian
- osgoi gweithgareddau y gallai olygu bod arian, asedau neu enw da yr Ardal Genhadaeth mewn perygl amhriodol
- cymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi arian yr Ardal Genhadaeth (neu wrth fenthyg arian at ddefnydd yr Ardal Genhadaeth)

**Mae materion / gofynion pwysig eraill yn cynnwys:**

- Rhaid i ymddiriedolwyr fod yn 'ddiduedd' ac yn gyfrifol am ddiogelu budd y cyhoedd
- Gellir dirprwyo rhai o weithgareddau'r ymddiriedolwyr, yn unol â rheolau sefydlog (rheolau a rheoliadau), ond ni ellir dirprwyo'r cyfrifoldebau cyffredinol
- Gallai rhai o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) fod yn atebol yn bersonol am unrhyw ddyled y cytunodd yr aelodau hynny iddi yn codi o dan unrhyw oblygiad cytundebol, os nad yw cyllid yr Ardal Genhadaeth yn gallu talu'r dyled honno.
- Gallai ymddiriedolwyr di-hîd neu annoeth fod yn atebol yn bersonol am golledion
- Does dim atebolrwydd oni bod yna 'esgeulusod diofal'

**Prif Ddyletswyddau Ymddiriedolwr**

1. Sicrhau fod eich Ardal Genhadaeth yn cyflawni'i nodau ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn addoli o fewn yr Ardal Genhadaeth. Mae'n rhaid i chi a'ch cyd ymddiriedolwyr sicrhau fod yr Ardal Genhadaeth yn cyflawni'r dibenion y gafodd ei sefydlu ar eu cyfer, a nid unrhyw ddibenion eraill. Mae hynny'n golygu y dylech:
   a. sicrhau eich bod yn deall nodau'r Ardal Genhadaeth fel sy'n cael eu dangos yn y Cyfansoddiad
   b. cynllunio beth fydd yr Ardal Genhadaeth yn ei wneud a beth rydych eisiau iddi ei gyflawni
   c. yn gallu egluro sut y bwriedir i bob un o weithgareddau'r Ardal Genhadaeth gyfarfod â nodau'r Cyfansoddiad
2. Cydymffurfio â Chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a'r gyfraith. Dylech gymryd camau rhesymol i ganfod beth yw'r gofynion cyfreithiol, er enghraifft, wrth ddarllen y canllaw perthnasol neu cymryd cyngor priodol pan fydd angen, er mwyn:
   a. sicrhau fod yr Ardal Genhadaeth yn cydymffurfio â'r Cyfansoddiad
   b. sicrhau fod yr Ardal Genhadaeth yn cydymffurfio â gofynion y Gyfraith Elusennau a chyfreithiau eraill sy'n berthnasol (er enghraifft, mae'n rhaid i elusennau Cofrestredig cadw eu manylion ar y gofrestr yn gyfredol a sicrhau eu bod yn anfon yr wybodaeth ariannol, a gwybodaeth arall, cywir at y Comisiwn Elusennau yn eu datganiad blynyddol.)
3. Gweithredu er buddion gorau'r Ardal Genhadaeth. Mae hynny'n cynnwys sicrhau:
   a. Mai chi a'ch cyd ymddiriedolwyr (a neb arall, nid hyd yn oed Bwyllgorau'r Eglwys) sy'n penderfynu beth fydd yn galluogi'r Ardal Genhadaeth i gyflawni ei dibenion orau
   b. gyda'ch cyd ymddiriedolwyr, eich bod yn cymryd penderfyniadau cytbwys a chyda'r wybodaeth ddigonol, gan ystyried y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr
   c. nad ydych yn gosod eich hunan mewn sefyllfa ble mae'ch dyletswydd i'r Ardal Genhadaeth yn gwrthdaro gyda'ch buddion personol na'ch teyrngarwch i unrhyw berson neu gorff arall
   d. nad ydych yn derbyn unrhyw fantais oddi wrth yr Ardal Genhadaeth oni bai ei fod yn cael ei awdurdodi'n briodol ac yn amlwg er budd yr Ardal Genhadaeth; mae hynny hefyd yn cynnwys unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi'n ariannol, megis partner, plentyn dibynnol neu bartner busnes
4. Rheoli adnoddau'ch Ardal Genhadaeth yn gyfrifol. Dylech chi a'ch cyd ymddiriedolwyr sefydlu gweithdrefnau ac amddiffyniadau priodol a chymryd camau rhesymol i sicrhau fod rhain yn cael eu dilyn. Fel arall, rydych mewn perygl o adael yr Ardal Genhadaeth yn agored i dwyll neu ladrad, neu fathau eraill o gamdriniaeth ac o dorri'ch dyletswydd. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol, yn rhesymol ac yn onest. Weithiau gelwir hynny'n ddyletswydd doethineb (gweler 'Beth mae bod yn Ymddiriedolwr yn ei olygu' uchod hefyd). Mae doethinieb yn golygu ymarfer barn gadarn. Yn ymarferol, mae'n rhaid i chi a'ch

cyd ymddiriedolwyr:

a. sicrhau mai dim ond i gefnogi neu i gyflawni eu dibenion y mae asedau'r Ardal Genhadaeth cael eu defnyddio
b. peidio â chymryd risgiau amhriodol gydag asedau nac enw da'r Ardal Genhadaeth
c. peidio â gor-ymrwymo'r Ardal Genhadaeth
d. cymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi neu fenthyg
e. cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau ar wario arian

5. Gweithredu gyda gofal a sgil resymol. Fel rhywun sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardal Genhadaeth, mae'n rhaid i chi:
   a. gymryd gofal rhesymol a defnyddio'ch sgiliau a'ch phrofiad a chymryd cyngor priodol yn ôl y gofyn
   b. rhoi digon o amser, meddwl ac egni i'ch rôl, er enghraifft wrth baratoi, mynychu a chymryd rhan weithgar ym mhob un cyfarfod o'r ymddiriedolwyr
6. Sicrhau fod eich Ardal Genhadaeth yn atebol. Rhaid i chi a'ch cyd ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion cyfrifeg ac adrodd statudol. Dylech hefyd:
   a. allu dangos fod eich Ardal Genhadaeth yn cydymffurfio â'r gyfraith a'i bod yn cael ei rhedeg yn dda ac yn effeithiol
   b. sicrhau atebolrwydd priodol i aelodau, os oes gan eich Ardal Genhadaeth aelodaeth ar wahân i'r ymddiriedolwyr
   c. sicrhau atebolrwydd o fewn yr Ardal Genhadaeth, yn enwedig os rydych yn ddirprwyo cyfrifoldeb am dasgau penodol neu benderfyniadau i staff neu wirfoddolwyr.

**Rhestr Wirio**

⬡ **Rwyf wedi llofnodi datganiad Ymddiriedolwr fy mod yn berson addas a phriodol ac nad wyf wedi fy ngwahardd rhag bod yn Ymddiriedolwr Elusen.**









# Bwrdd Yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth)

### Beth yw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth [MAC])?

Fel yr ydym wedi gweld, Ymddiriedolwyr unigol yw'r bobl sy'n arwain yr Ardal Genhadaeth ac yn penderfynu sut mae'n cael ei rhedeg, ac maen nhw'n gwneud hynny'n bennaf trwy eu gwaith ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn canolbwyntio'n bennaf ar reolaeth cyffredinol o'r Ardal Genhadaeth, sef yr Elusen. Felly, aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yw **Ymddiriedolwyr yr Elusen.** Mae hynny oherwydd bod yr eiddo o fewn yr Ardal Genhadaeth, ynghyd â'r arian ac asedau eraill, yn cael eu dal gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr AR YMDDIRIEDOLAETH dros yr Ardal Genhadaeth.

Er bod aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dod yn bennaf o'r eglwysi o fewn yr Ardal Genhadaeth, nid eu swyddogaeth yw cynrychioli'r eglwys honno ond i reoli'r Ardal Genhadaeth er budd pawb sy'n addoli ac yn byw yn y cymunedau o fewn yr Ardal Genhadaeth.

### Bod yn Gymwys i ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

Rhaid i chi fod yn 18 mlwydd oed neu drosodd i fod ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) a bydd gofyn i chi wneud y datganiad canlynol:

> ***Yr wyf i, [enw llawn], yn datgan fy mod yn Gymunwr dros ddeunaw mlwydd oed a bod fy enw wedi'i osod yn gywir ar restr etholiadol yr Ardal Genhadaeth hon, byddaf yn perfformio fy nyletswyddau'n ffyddlon ac yn ddiwyd fel Ymddiriedolwr yn ystod fy mlwyddyn mewn swydd, a'm bod yn cytuno i dderbyn a chael fy rhwymo gan Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.***

### Beth yw prif feysydd ffocws gwaith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

Mae'r canlynol yn rhestr o brif meysydd ffocws ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC).

**Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gallu dirprwyo pwerau i is-bwyllgorau i weithio ar y gwahanol feysydd hyn, ond yn y pendraw, mae cyfrifoldeb yn aros pob amser gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

1. Rheoli a chodi arian yr Ardal Genhadaeth (fel arfer pwerau dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Cyllid)
2. Eiddo ac adeiladau (fel arfer pwerau dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Eiddo)
3. Cynllunio strategol ar gyfer tyfu'r eglwys, addoli a gofal bugeiliol yn yr Ardal Genhadaeth (fel arfer yn cael ei ddirprwyo i'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir)
4. Personél (fel arfer yn aros gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr)
5. Ystyried a thrafod materion ynghylch yr Eglwys yng Nghymru neu diddordebau crefyddol neu gyhoeddus eraill (fel arfer yn aros gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr)
6. Cynhyrchu adroddiadau blynyddol a chyfrifon angenrheidiol ar gyfer y Comisiwn Elusennau (fel arfer yn aros gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr) (Rhaid i elusennau cofrestredig cadw eu manylion yn gyfredol ar y gofrestr a sicrhau eu bod yn anfon yr wybodaeth ariannol cywir a gwybodaeth arall at y Comisiwn Elusennau yn eu datganiad blynyddol)
7. Adolygu'r Rhestr Etholiadol yn flynyddol a chynhyrchu Rhestr Etholiadol pob pum mlynedd (y blynyddoedd yn gorffen gyda 2 neu 7)
8. Polisïau'r Ardal Genhadaeth – Disgwylir y bydd pob Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) wedi trafod a mabwysiadu polisïau sy'n dangos sut y bydd yr elusen yn cael ei rhedeg. Mae'r polisïau hyn yn amddiffyn yr ymddiriedolwyr a'r bobl sy'n gweithio, yn gwirfoddoli ac yn defnyddio gwasanaethau elusen. Mae'r Comisiwn Elusennau'n gofyn i elusennau sefydlu rhai polisïau, a bydd llawer o sefydliadau sy'n talu grantiau'n gofyn am hynny hefyd. Mae'r polisïau mwyaf cyffredin i'w canfod yma Polisïau ar gyfer Ardal Genhadaeth – Esgobaeth Llanelwy (https://dioceseofstasaph.org.uk/missionarearesources/policies-for-a-mission-area/)

### Cymryd penderfyniadau fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae ymddiriedolwyr elusennau yn cymryd penderfyniadau ynghylch eu helusen gyda'i gilydd, yn gweithio fel tîm. Fel arfer does dim rhaid i benderfyniadau fod yn unfrydol cyhyd â bod y mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cytuno. Os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw. Fel arfer, bydd penderfyniadau'n cael eu cymryd mewn cyfarfodydd o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) (gweler Adran 3 isod) naill ai mewn person neu ar lein. Gellir dirprwyo rhai penderfyniadau, ond mae'r cyfrifoldeb am y penderfyniadau'n aros gyda'r Ymddiriedolwyr.

Pan fyddwch chi a'ch cyd ymddiriedolwyr yn cymryd penderfyniadau ynglŷn â'ch elusen, mae'n rhaid i chi:

- weithredu o fewn eich pwerau
- weithredu mewn ewyllys da, a dim ond er budd eich Ardal Genhadaeth
- sicrhau eich bod yn ddigon gwybodus, yn cymryd unrhyw gyngor rydych ei angen
- talu sylw i'r holl ffactorau perthnasol rydych yn ymwybodol ohonyn nhw
- anwybyddu unrhyw ffactorau amherthnasol
- ymdrin â gwrthdaro buddiannau a theyrngarwch – mae yna ddau fath o wrthdaro buddiannau - ariannol a theyrngarwch
- cymryd penderfyniadau sydd o fewn yr ystod o gyfyngiadau y gallai corff ymddiriedolwyr eu cymryd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau

Dylech gofnodi sut rydych wedi cymryd penderfyniadau mwy arwyddocaol rhag ofn y bydd angen eu hadolygu neu'u hegluro yn y dyfodol.

### Sut mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn gweithio

Cylch Gorchwyl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru)

1. Mae'r RHAID i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (gweler atodiad 2 am Dempled Rheolau ac Agenda Cyfarfod).
2. Mae'n DDYLETSWYDD ar y Tîm Gweinidogaeth a Rennir (SMT) a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) i ymgynghori gyda'i gilydd ac i gydweithio ar yr holl faterion o bryder a phwysigrwydd i'r Ardal Genhadaeth.
3. Os nad yw'r wybodaeth ar gael yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am benderfynu sut y bydd yn gweithredu. Gallai'r pethau y gallai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ddymuno eu penderfynu gynnwys:
   - Nifer yr is-bwyllgorau
   - Y pwerau dirprwyedig i'r is-bwyllgorau hynny
   - Y canlyniadau a ddisgwylir oddi wrth yr is-bwyllgorau hynny
   - Cyfyngiadau ar wariant sy'n cael eu gosod ar yr is-bwyllgorau hynny
   - Sut y dylai gwario y tu hwnt i'r cyfyngiadau hynny cael ei gyfeirio'n briodol at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
4. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw'r sianel arferol o gyfathrebu rhwng plwyfolion a'r Esgob.  Wrth ymarfer ei waith bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr;
   - yn cymryd i ystyriaeth unrhyw fynegiant o farn gan unrhyw gyfarfod eglwys oedd wedi'i gynnull yn gywir
   - Ystyried cydweithio gyda Byrddau Ymddiriedolwyr eraill er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau ac osgoi dyblygu?
   - Talu sylw i effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Ardal Genhadaeth
   - Nodi unrhyw risgiau posibl ble gallai nodau, amcanion a chyfeiriad strategol yr Ardal Genhadaeth achosi problemau
   - Polisïau cyflogaeth. Os mai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gyflogi staff – e.e. gweinyddwr, gweithiwr ieuenctid, organydd neu ofalwr eglwys – rhaid i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gadw at gyfraith gyflogaeth

### Aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

Mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys:

1. Aelodau ex-officio fel sy'n cael ei ddangos yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru
2. Aelodau etholedig (etholwyd trwy pleidlais)
3. Aelodau wedi'u cyfethol (trwy wahoddiad)

#### Aelodau Ex-officio

i. Clerigion (oni bai bod cytundeb rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r darpar aelodau ex-officio)
ii. Unrhyw weithwyr lleyg cyflogedig llawn amser
iii. Wardeiniaid Ardal Genhadaeth

#### Aelodau Etholedig

iv. Y nifer hynny o etholwyr cymwys lleyg o bob eglwys yn yr Ardal Genhadaeth fel sy'n cael ei gytuno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac sydd wedi'u hethol yng Nghyfarfod Blynyddol y Festri, ar ôl argymhelliad cyfarfod Cynulleidfaol yr Eglwys – dylai'r pwyllgor eglwys enwebu cymaint o gynrychiolwyr ag sydd ei angen (gan gynnwys rhestr atodol, os yn briodol)

Ni ddylai'r nifer o aelodau etholedig fod yn fwy na 25

Mae nifer yr aelodau etholedig i'w sefydlu yng nghyfarfod Blynyddol y Festri o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr pob blwyddyn

#### Co-opted Members

v. Yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd, os nad ydyn nhw eisoes naill ai'n aelodau ex-officio neu'n aelodau lleyg etholedig
vi. Nifer (ddim mwy na saith) o aelodau lleyg neu glerigion yn ôl penderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)
vii. Darllenwyr trwyddedig (os o gwbl) yn ôl penderfyniad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)
viii. NID yw clerigion wedi ymddeol yn gymwys i gael eu cyfethol

Mae'r rheolau canlynol hefyd yn berthnasol:

1. Ni all nifer yr aelodau clerigol bod yn fwy na'r nifer o aelodau lleyg
2. Bydd pob aelod lleyg o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) ar Restr Etholiadol yr Ardal Genhadaeth a thros 18 mlwydd oed – dyma derfyn oedran y Gyfraith Elusennau – er gellir gwahodd pobl eraill i fynychu ac i siarad mewn cyfarfodydd.
3. Cyn cymryd y swydd, bydd pob aelod lleyg yn llofnodi datganiad ar ffurf penodedig mewn llyfr sy'n cael ei gadw gan Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr at y diben hwnnw (gweler isod).

### Swyddogaethau Penodol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)
### Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

- Dylid ethol Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o blith aelodau'r Bwrdd (ac ni fydd o angenrheidrwydd yn Arweinydd Ardal Genhadaeth).
- Y Cadeirydd fydd yn arwain cyfarfodydd; a gellir ei h/ystyried fel "pennaeth seremonïol" Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynrychioli'r Bwrdd mewn achlysuron a chyfarfodydd eraill.
- Y Cadeirydd fydd yn llywyddu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Os bydd pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.
- Gall Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod yn aelod ex-officio o is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

### Arweinydd Ardal Genhadaeth (MAL)

Arwain a chefnogi'r Ardal Genhadaeth mewn cenhadaeth a gweinidogaeth a dyfnhau bywyd rhyng-ddibynnol cymunedau'r eglwys mewn addoliad a thystiolaeth er mwyn eu galluogi gysylltu gyda'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu.

- arwain yr Ardal Genhadaeth mewn gweddi, addoliad a disgyblaeth
- rhannu gyda'r Esgob yn ei g / weinidogaeth esgobaethol trwy roi ffocws ar waith yr Eglwys yn yr Ardal Genhadaeth.
- bod yn gatalydd ar gyfer cenhadaeth yn yr Ardal Genhadaeth trwy adnabod hadau cenhadaeth a datgloi potensial, datblygu a gweithredu cynllun cenhadaeth sy'n cwmpasu gweledigaeth, blaenoriaethau a chynlluniau datblygu strategol er mwyn talu sylw i efengylu, gweinidogaeth, defnydd o adeiladau, cyllid a thwf. Mae twf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys niferoedd, datblygiad ysbrydol a disgyblaeth.
- bydd yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Rhannu Gweinidogaeth i weithredu fel timoedd effeithiol o bobl leyg ac ordeiniedig trwy ddarparu gweinidogaeth ar y cyd a chyd-gefnogaeth. Dylid annog aelodau tîm sy'n amrywiol yn eu gweinidogaethau ac agwedd. Yn ôl y gofyn, bydd Arweinydd yr Ardal Genhadaeth yn ddirnad ac yn rheoli dynameg y grŵp.
- bydd yn darparu cefnogaeth fugeiliol i'r timoedd yn yr Ardal Genhadaeth fel bo'n briodol, gan ofyn am gefnogaeth esgobaethol yn ôl y gofyn.
- bydd yn ystyried bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn hanfodol i fywyd yr ardal a bydd yn ceisio, mewn cydweithrediad â'i aelodau i'w wneud yn strwythur dynamig ar gyfer strategaeth, atebolrwydd a gweithredu.
- bydd yn gyfrifol am adeiladu'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn yr Ardal Genhadaeth sy'n cwmpasu'r holl ffurfiau o weinidogaeth awdurdodedig, er mwyn i'r weinidogaeth honno fod yn gefnogol ac yn effeithiol.
- bydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau cyfathrebu effeithiol ac am 'rwydwaith' o fewn ac y tu allan i strwythurau'r eglwys. Mae hon yn broses ddwy ffordd, sy'n sicrhau fod pryderon a mentrau esgobaethol yn cael eu derbyn, eu gwerthuso a'u gweithredu yn yr Ardal Genhadaeth a bod pryderon a blaenoriaethau'r Ardal Genhadaeth yn cael eu cyfleu i'r Esgob a chyrff yr Esgobaeth.
- bydd â chyfraniad pwysig wrth benodi i swyddi newydd yn yr Ardal Genhadaeth, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir, gan weithio i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau, rhywedd ac arbenigedd.
- bydd yn cyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u pennu i swyddfa cyfansoddiadol y Deon Ardal gan Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru.
- bydd yn cymryd y gadair mewn Cyfarfodydd y Festri oni bai ei fod ef neu hi'n dymuno fel arall (ai wedi ordeinio neu'n lleyg).

### Warden Ardal Genhadaeth

Bod yn flaenllaw wrth gynrychioli'r bobl lleyg yn yr Ardal Genhadaeth ac wrth ymgynghori a chydweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (MAC) trwy'r canlynol:

- **Arweinyddiaeth:** Gweithio gydag Arweinydd yr Ardal Genhadaeth a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (mae Wardeiniaid yr Ardal Genhadaeth yn aelodau ex-officio ohono) er mwyn sicrhau fod strategaeth yr Ardal Genhadaeth yn cael ei gweithredu'n briodol.
- **Cefnogaeth:** Ymarfer rôl benodol o gefnogaeth i a gofal dros Arweinydd yr Ardal Genhadaeth..
- **Swyddog yr Esgobr:** Bod yn bresennol pan fydd yr Esgob yn bresennol yn yr Ardal Genhadaeth ac mewn unrhyw achos o anhawster na ellir ei datrys gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gweithredu'n uniongyrchol gyda'r Archddiacon neu'r Esgob.
- **Gweinyddu:** Sicrhau, gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, fod Datganiadau'r Archddiacon yn cael eu cwblhau ar gais ac erbyn y dyddiad dyledus pob blwyddyn.
- **Galluogi ac Annog:** Galluogi ac annog Wardeiniaid yr Eglwys ym mhob cymuned leol yn eu tasg ac, yn achos o salwch neu swydd wag, sicrhau fod y dyletswyddau'n cael eu cyflawni.
- **Swydd Wag:** Cydweithio a chydlynu gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Archddiacon mewn achos o swydd wag am Arweinydd Ardal Genhadaeth.
- **Addoli:** Os bydd amgylchiadau eithriadol yn codi, mae'n arferol i Warden arwain yr addoliad mewn eglwys, gan ddefnyddio naill ai Gweinidogaeth y Gair o'r Cymun Bendigaid neu Weddi Foreol neu Hwyrol gyda Darlleniadau'r Dydd.

### Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

- Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn penodi ysgrifennydd, a fydd yn gweithredu fel ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac ysgrifennydd Cyfarfodydd y Festri Blynyddol. Gellir penodi dirprwy ysgrifennydd. Yn aml y Gweinyddwr Ardal Genhadaeth sy'n cyflawni'r swydd hon.
- Os bydd yr ysgrifennydd a'r dirprwy ysgrifennydd yn absennol o gyfarfod, bydd y cyfarfod yn penodi aelod arall fel ysgrifennydd y cyfarfod hwnnw.

**Bydd yr Ysgrifennydd yn:**

- cyflwyno pob gohebiaeth sy'n berthnasol i fusnes Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w drafod a / neu gweithredu.
- anfon enwau a chyfeiriadau Wardeiniaid Ardal Genhadaeth a Wardeiniaid unigol yr Eglwys at yr Archddiacon.
- cylchredeg yr agenda a gytunwyd cyn cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chyfarfod y Festri Blynyddol yr Ardal Genhadaeth.
- Cymryd cofnodion y cyfarfod a'u cylchredeg yn dilyn y cyfarfod, o fewn terfyn amser a gytunir.
- Sicrhau fod copïau o'r cofnodion yn cael eu cytuno a'u llofnodi yn y cyfarfod dilynol o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Cwblhau a dychwelyd ceisiadau am wybodaeth oddi wrth gyrff eraill megis Swyddog yr Esgobaeth neu'r Comisiwn Elusennau.
- Gellir penodi dirprwy ysgrifennydd i fod o gymorth i Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

### Gweinyddwr Ardal Genhadaeth (MAA)

Bydd Gweinyddwr yr Ardal Genhadaeth (MAA) yn darparu cefnogaeth weinyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn ôl y gofyn. Gallai hynny amrywio o gyfathrebu, dyrannu clerigion i wasanaethau, cydlynu gyda theuluoedd ar gyfer swyddi achlysurol ayb.

Mae rhai Ardaloedd Cenhadaeth yn gofyn i Weinyddwr yr Ardal Genhadaeth i gymryd cofnodion cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a hefyd yr Is-bwyllgor Cyllid a'r Is-bwyllgor Eiddo. Mae hynny'n sicrhau llif llyfn o wybodaeth rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i is-bwyllgorau.

Mae Gweinyddwr Ardal Genhadaeth fel arfer yn gyflogai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac felly, nid yw'n cymwys i fod yn ymddiriedolwr yr Ardal Genhadaeth. Mae gan y Gweinyddwr hawl i fod yn bresennol ac i siarad mewn cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ond nid i bleidleisio ganddynt. Gallai grantiau fod ar gael oddi wrth Swyddfa'r Esgobaeth i gynorthwyo gyda chyflog Gweinyddwr Ardal Genhadaeth.

### Trysorydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

- Bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn penodi trysorydd (a dirprwy drysorydd) yn flynyddol i weinyddu arian yr Ardal Genhadaeth.
- Mae Trysorydd yr Ardal Genhadaeth yn gallu gweithredu fel cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid neu gellir penodi aelod arall. Anogir y dylai aelodau eraill o'r Is-bwyllgor Cyllid fod yn drysoryddion wedi'u penodi gan bwyllgorau'r eglwysi unigol.
- Bydd Trysorydd yr Ardal Genhadaeth yn cyflwyno copi o gyfrifon yr eglwysi i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr er mwyn i'r Bwrdd allu eu harddangos ger prif ddrws yr eglwysi a phob adeilad arall sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Ardal Genhadaeth ar gyfer addoli ac sy'n perthyn i'r Eglwys yng Nghymru am gyfnod, yn cynnwys dau ddydd Sul yn union cyn ddiwrnod Cyfarfod Blynyddol y Festri.

Mae disgrifiad llawn o swydd a'r dyletswyddau Trysorydd yr Ardal Genhadaeth a Thrysoryddion yr Eglwys ym Mhecyn Gwaith 4 – Cyllid Ardal Genhadaeth
**https://dioceseofstasaph.org.uk/2020-toolkits/**

### Ysgrifennydd Rhodd Cymorth Ardal Genhadaeth (MAGAS)

Ysgrifennydd Rhodd Cymorth Ardal Genhadaeth sy'n derbyn yr atodlenni Rhodd Cymorth a Chynllun Rhoddion Bach Rhodd Cymorth oddi wrth Ysgrifenyddion Rhodd Cymorth yr Eglwys ac yn cyflwyno'r hawliadau trwy Borth y Llywodraeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae'r hawliad wedyn yn cael ei ad-dalu i'r eglwys.

### Cydlynydd Diogelu'r Ardal Genhadaeth

Y Cydlynydd Diogelu Ardal Genhadaeth yw'r ddolen rhwng Swyddfa'r Esgobaeth a'r Ardal Genhadaeth mewn perthynas â diogelu.

- Cydlynu gyda swyddfa'r esgobaeth er mwyn sicrhau fod y gronfa wybodaeth yn gyfredol ynghylch y rhai sy'n gweithio gydag oedolion bregus a phlant .
- Hysbysu swyddfa'r esgobaeth am unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y gronfa wybodaeth rhwng datganiadau blynyddol.
- Cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ôl y gofyn wrth gwblhau'r ffurflen ar wefan yr Eglwys yng Nghymru.
- Cyfeirio at y polisi a'r gweithdrefnau Diogelu yn ôl y gofyn.
- Cyfeirio at hyfforddiant Diogelu yn ôl y gofyn.

#### Swyddog Rhestr Etholiadol Ardal Genhadaeth

Swyddog Rhestr Etholiadol yr Ardal Genhadaeth sy'n casglu'r wybodaeth a roddir gan bob eglwys yn yr Ardal Genhadaeth ar gyfer y Rhestr Etholiadol. Y Swyddog hefyd sy'n darparu gwybodaeth ynghylch ddogfennau ac amserlenni.

#### Swyddogaethau Eraill ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

Efallai bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) hefyd yn dymuno penodi i rai / y cyfan o'r swyddogaethau canlynol

- ✓ Cydlynydd Hyfforddiant Ardal Genhadaeth
- ✓ Cydlynydd Gwybodaeth Ardal Genhadaeth
- ✓ Eiriolwr Ysgolion Ardal Genhadaeth
- ✓ Cydlynydd Cyfathrebu Ardal Genhadaeth

#### Is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)

#### A. Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth (MAE [Misson Area Executive])

#### Atebolrwydd

Is-bwyllgor o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth yw Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth ac mae'i Gylch Gorchwyl yn cael ei benderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.  Gallai hynny cynnwys cyllideb dirprwyedig.

#### Aelodaeth

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gallu penderfynu i bwy y mae'n gofyn i eistedd ar Bwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth.  Fel arfer mae hynny'n cynnwys holl swyddogion yr Ardal Genhadaeth (Arweinydd Ardal Genhadaeth, Warden Ardal Genhadaeth, Trysorydd Ardal Genhadaeth, Gweinyddwr Ardal Genhadaeth neu Ysgrifennydd yr Ardal Genhadaeth, Cadeirydd) ac unrhyw berson arall yn ôl y gofyn.

#### Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth

Bydd Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth yn penodi cadeirydd o'r aelodau, fel arfer Arweinydd yr Ardal Genhadaeth neu Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

#### Amlder Cyfarfodydd

Mae Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth yn cyfarfod pryd ac yn ôl y gofyn i ymdrin â materion sy'n codi.

#### Adrodd

Bydd busnes Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth, y tu allan i leoliad arferol agenda cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael ei gylchredeg i holl aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth, fel arfer trwy'r Gweinyddwr Ardal Genhadaeth.

#### What does the Mission Area Executive do?

Pwyllgor Gwaith Ardal Genhadaeth sy'n

- Gosod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Cymryd penderfyniadau o ddydd i ddydd er mwyn i'r Ardal Genhadaeth redeg yn llyfn o fewn ei gylch gorchwyl

#### B. Yr Is-bwyllgor Eiddo

#### Atebolrwydd

Mae'r Is-bwyllgor Eiddo yn is-bwyllgor Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (MAC) ac mae'i Gylch Gorchwyl yn cael ei benderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

#### Responsibility

Bydd yr Is-bwyllgor Eiddo'n gyfrifol am ofalu am yr holl adeiladau yn yr Ardal Genhadaeth, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) wneud ceisiadau am Ffacwltis yn unol â'r Cyfansoddiad, gan ystyried bob amser y goblygiadau bugeiliol ac ariannol o ofalu am, ac atgyweirio, yr holl adeiladau ac eiddo yn, ac ar gyfer, yr Ardal Genhadaeth gyfan.

#### Cylch Gorchwyl

Cefnogi a chynghori'n unigol a / neu ar y cyd yr holl bwyllgorau eglwysig yn yr Ardal Genhadaeth mewn perthynas ag adeiladau ac eiddo.

- Cefnogi a chynghori'n unigol a / neu ar y cyd yr holl bwyllgorau eglwysig yn yr Ardal Genhadaeth mewn perthynas ag eiddo
- Derbyn cynigon cyn Ffacwlti er ystyriaeth a sylw
- Gosod cyfyngiadau gwario dirprwyedig ar gyfer gwaith adeiladu
- Sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol wedi'u sefydlu ar gyfer prosiectau adeiladu
- Derbyn yn flynyddol. ar ran yr Ardal Genhadaeth, gopïau o'r canlynol
  - Adroddiad Adeiladwaith Wardeiniaid Eglwysi
  - Arolwg Adeiladau
  - "Atgyweiriadau a Argymhellir" yr Archwiliad Pum Mlynedd mwyaf diweddar
  - Asesiad risg mwyaf diweddar yr yswirwyr
  - Polisi Iechyd a Diogelwch
  - Archwiliad Deddf Cydraddoldeb
  - Polisi cynnal a chadw mynwentydd / tiroedd
  - Polisi Llogi
- Cydlynu gyda Swyddfa'r Esgobaeth ynghylch gwybodaeth sy'n berthnasol i'r arian a grantiau presennol ac sydd ar gael
- adrodd yn ôl i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (MAC) yn rheolaidd

#### Swyddogion

Bydd yr Is-bwyllgor Eiddo'n penodi ei Ysgrifennydd Cofnodion ei hunan a bydd yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd sy'n cael ei ph / benodi gan yr Arweinydd Ardal Genhadaeth.

#### Aelodaeth
Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Eiddo'n cael ei benderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth. Y prif meini prawf ar gyfer bod ar yr Is-bwyllgor Eiddo yw y gallu i drafod gwaith eiddo arfaethedig, yn hytrach na bod yn gynrychiolydd eglwys.

Bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Eiddo'n aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac yn adrodd ar waith yr Is-bwyllgor Eiddo i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Gallai gadeirio cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Eiddo neu ddirprwyo hynny i aelod arall.

Bydd cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn cael ei benderfynu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

#### Amlder Cyfarfodydd
Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn rhwng cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

#### Adrodd
Bydd cofnodion pob cyfarfod o'r is-bwyllgor yn cael eu cylchredeg i holl aelodau'r is-bwyllgor a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.
*(Gweler Atodiadau 4, 5, 6 a 7 am ragor ynghylch sut mae'r Is-bwyllgor Eiddo'n gwneud ei waith)*

### C. The Finance Sub-committee
Mae gan yr Is-bwyllgor Cyllid bwerau dirprwyedig i oruchwylio holl faterion ariannol yr Ardal Genhadaeth ac i gynnig argymhellion ar y materion hynny i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC). Maen nhw'n gwneud hynny trwy:

- sicrhau bod yr wybodaeth ariannol gyfredol, gan ddefnyddio adroddiadau'r Cydlynydd Cyllid, ar gael ym mhob cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Sicrhau, pan nad yw eglwys yn gallu penodi trysorydd, fod rheolaeth ariannol yr eglwys honno yn cael ei wneud trwy rhyw fodd arall (e.e. gan un trysorydd yn gofalu am fwy nag un eglwys, neu ddefnyddio mewnosodwr data).
- gweithio gyda'i gilydd i baratoi cyfraniad teg a rhesymol, eglwys wrth eglwys, at y Cyfran Ardal Genhadaeth Esgobaethol
- derbyn amcangyfrif o'r gyllideb oddi wrth bob Pwyllgor Eglwys, ynghyd ag adroddiadau ar eu harian
- sderbyn cyfrifon diwedd y flwyddyn yn brydlon oddi wrth bob Pwyllgor Eglwys yn unol â darpariaethau cyfredol y Ddeddf Elusennau a chyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru
- ystyried unrhyw fater ariannol perthnasol arall sydd angen sylw Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- cynorthwyo eglwysi wrth hawlio eu Rhodd Cymorth a GASDS thrwy Borth y Llywodraeth ganolog a rôl Ysgrifennydd Rhodd Cymorth Ardal Genhadaeth (MAGAS).
- paratoi cyfrifon blynyddol wedi'u Harchwilio'n Annibynnol er ystyriaeth Festri'r Pasg ac i'w cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau erbyn 31 Hydref.

#### Swyddogion
Bydd yr Is-bwyllgor Cyllid yn penodi ei Ysgrifennydd Cofnodion ei hunan a bydd yn cael ei gadeirio gan naill ai Drysorydd yr Ardal Genhadaeth neu Gadeirydd sy'n cael ei ph / benodi gan Drysorydd yr Ardal Genhadaeth (MAT).

#### Aelodaeth
Aelodaeth yr Is-bwyllgor Cyllid fydd y Trysoryddion Eglwysi a Thrysorydd yr Ardal Genhadaeth os nad yw'n Drysorydd Eglwys.

Bydd y Trysorydd Ardal Genhadaeth (MAT) yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac o'r Is-bwyllgor Cyllid. Mae'n gyfrifol am adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion cyllid. Gallai gadeirio cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Cyllid neu'n ddirprwyo hynny i aelod arall.

Bydd cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn cael ei benderfynu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

#### Amlder Cyfarfodydd
Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn rhwng cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

#### Adrodd
Bydd cofnodion pob cyfarfod o'r is-bwyllgor yn cael eu rhannu i holl aelodau'r is-bwyllgor ac i fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

#### Dolenni Defnyddiol
Mae rhagor o fanylion ynghylch sut mae cyllid yr Ardal Genhadaeth yn cael ei rheoli yn
**Pecyn Gwaith 4 – Cyllid Ardal Genhadaeth**
https://dioceseofstasaph.org.uk/2020-toolkits/

## D. Y Tîm Gweinidogaeth a Rennir ([SMT] Shared Ministry Team])

### Atebolrwydd

Mae'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn is-bwyllgor o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (MAC) ac mae'i Gylch Gorchwyl yn cael ei benderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

### Cyfrifoldeb

Bydd y Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn gyfrifol am dwf eglwysi o ran twf rhifol, ysbrydol a chenhadol.

### Cylch Gorchwyl

Bydd hynny'n cynnwys defnyddio 4 P Arwain Eich Eglwys i Dwf er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer Gweddi, Presenoldeb, Datgan a Pherswâd (Prayer, Presence, Proclamation a Persuasion).

- gosod gweddi (ac enwedig gweddi am dwf) wrth galon gwaith yr Ardal Genhadaeth.
- darparu amrywiaeth o ddulliau addoli
- sicrhau fod amseru addoli'n strategol ac yn hygyrch
- annog ffurfiau newydd o addoli
- annog twf mewn ffurfiau newydd a rhai wedi'u sefydlu o addoli
- annog a nerthu gweinidogaeth leyg ar ei amrywiol ffurfiau
- chwilio am gyfleoedd newydd i gyrraedd y rhai nad ydynt erioed wedi mynd i'r eglwys a'r rhai sydd wedi disgyn i ffwrdd o'r eglwys
- adrodd yn ôl i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (MAC) yn rheolaidd

Mae'n DDYLETSWYDD ar y Tîm Gweinidogaeth  a Rennir (SMT) a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) i ymgynghori gyda'i gilydd ac i gydweithio ar yr holl faterion o bryder a phwysigrwydd i'r Ardal Genhadaeth.

### Swyddogion

Bydd y Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn penodi'i Ysgrifennydd Cofnodion ei hunan a bydd yn cael ei gadeirio gan Arweinydd yr Ardal Genhadaeth.

### Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Tîm Gweinidogaeth a Rennir  yn cael ei benderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth. Mae'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn gyfle i ystyried amrywiaeth y rhai sydd â rhan mewn gweinidogaeth ledled yr Ardal Genhadaeth.

### Gallai'r aelodaeth gynnwys:

- Clerigion
- Gweinidogion Lleyg Trwyddedig (megis Darllenwyr, Caplan Ieuenctid a Phlant, Efengylwr ayb)
- Arweinwyr Addoliad
- Cynorthwywyr Bugeiliol
- Aelodau o'r tîm Caplaniaeth

### Cadeirydd y Tîm Gweinidogaeth a Rennir

Bydd Arweinydd yr Ardal Genhadaeth yn cadeirio'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir er gallai ddirprwyo i aelod arall os yw'n dymuno.  Bydd Arweinydd yr Ardal Genhadaeth yn adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC).

Bydd cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn cael ei benderfynu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

### Amlder Cyfarfodydd

Bydd y Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn rhwng cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

### Adrodd

Bydd cofnodion pob cyfarfod o'r Tîm Gweinidogaeth a Rennir yn cael eu rhannu i holl aelodau'r is-bwyllgor a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

## E. Is-bwyllgorau'r Eglwys

Gallai fod yna Bwyllgor Eglwys ar gyfer pob eglwys yn yr Ardal Genhadaeth, neu un pwyllgor ar gyfer nifer o eglwysi os ydi hynny'n ateb y gofyn lleol yn well.  Mater yw hynny i'w drafod rhwng Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) a'r cynulleidfaoedd lleol.  Dylai'r ymddiriedolwyr gofio bob amser mai eu cyfrifoldeb nhw yw rhedeg yr Ardal Genhadaeth yn esmwyth ac yn effeithiol.

### Atebolrwydd

Mae Pwyllgorau Eglwys yn is-bwyllgorau o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (MAC) ac mae'u Cylch Gorchwyl yn cael eu penderfynu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

### Swyddogion

Bydd y Pwyllgor Eglwys yn penodi'i Drysorydd ac Ysgrifennydd Eglwys ei hunan.

### Aelodaeth

Bydd aelodaeth y Pwyllgor Eglwys yn cael ei benderfynu gan gynulleidfa'r eglwys, ar y cyd â Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

### Cadeirydd Is-bwyllgor yr Eglwys

Y Pwyllgor Eglwys fydd yn penodi cadeirydd o blith yr aelodau.

### Amlder Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgorau Eglwys yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn rhwng cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth, oni bai bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu fel arall.

### Adrodd

Bydd cofnodion pob cyfarfod o'r pwyllgorau Eglwys yn cael eu rhannu i holl aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth, fel arfer trwy Weinyddwr yr Ardal Genhadaeth. Bydd Ymddiriedolwr o'r eglwys honno'n adrodd yn ôl y gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

### Beth mae Is-bwyllgorau eglwys yn ei wneud?

- Cynulleidfa pob eglwys fydd yn gyfrifol am redeg eu heglwys o ddydd i ddydd, ac am adeiladau eglwysig eraill o fewn eu cyn blwyf. Gellir gwneud hynny trwy ffurfio Pwyllgor Eglwys.
- Mae gan bob cynulleidfa bwerau dirprwyedig i benodi hyd at 2 warden eglwys, neu ddarparu goruchwyliaeth ddigonol arall i ymdrin â materion lleol ac adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Bydd pob cynulleidfa'n penodi Trysorydd.
- Mae gan Bwyllgorau Eglwys (fel is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr) neu eraill wedi'u penodi gan y gynulleidfa, bwerau dirprwyedig i ymdrin â materion lleol, ac i yswirio eu hadeiladau a thalu'r premiwm gofynnol.
- Mae gan Bwyllgorau Eglwys (fel is-bwyllgorau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr) neu eraill wedi'u penodi gan y gynulleidfa, bwerau dirprwyedig i drwsio, cynnal a chadw a thalu holl filiau cyfleustodau'r eglwysi, neuaddau ayb o fewn eu "ffiniau", cyn belled nad yw'r eglwys yn gwario mwy na £5,000 ar anfoneb unigol, heb gyfeirio'r mater at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (neu'r Is-bwyllgor Eiddo yn unol â rheolau a rheoliadau Ardal Genhadaeth).
- Rhaid i bob Eglwys baratoi cyllideb flynyddol.
- Bydd pob eglwys yn enwebu hyd at 1 neu 2 aelod o'u cynulleidfa (pa un bynnag sy'n briodol yn unol â rheolau a rheoliadau Ardal Genhadaeth) i fod yn aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a fydd hefyd yn cynnwys pob un sy'n dal Trwydded yr Esgob.

### Rhestr Wirio

- [ ] **Rwy'n deall fod bod yn aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn gyfrifoldeb cyfreithiol a'm bod yn gyfrifol am asedau ac am atebolrwydd yr Ardal Genhadaeth.**
- [ ] **Rwy'n deall beth yw rhan Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yng ngweithrediad cyffredinol yr Ardal Genhadaeth.**
- [ ] **Rwy'n deall sut y bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn trefnu ei gyfarfodydd**
- [ ] **Rwy'n deall y bydd gan rai aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) swyddogaethau ychwanegol i'w gwneud.**
- [ ] **Rwy'n derbyn, er bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn gallu dirprwyo pwerau, nad yw'n gallu dirprwyo ei gyfrifoldebau.**
- [ ] **Rwyf wedi darllen y polisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu fel sail gwaith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC).**

**Gyda diolch i'r grŵp a fu'n helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon:**

| Enw | Swyddogaeth | Ardal Genhadaeth |
|---|---|---|
| Richard Burton | Arweinydd Ardal Genhadaeth | Tanat-Efyrnwy |
| Emily Clarke-Jones | Swyddog Datblygu Ardal Genhadaeth | Yr Wyddgrug |
| Rob Dawson | Cadeirydd Lleyg Ardal Genhadaeth | Y Gororau |
| Maryon Hughes | Warden Ardal Genhadaeth | Bryn a Môr |
| Jonathon Smith | Arweinydd Ardal Genhadaeth | Wrecsam |
| Suzanne Wardell | Arweinydd Ardal Genhadaeth | Cedewain |
| Michael Plane | Arolygydd Eglwysi | |
| Llŷr Williams | Cofrestrydd yr Esgobaeth | |

Diolch ychwanegol i Maureen Gamble (Gweinyddwr Ardal Genhadaeth Glyn y Groes) am brawfddarllen ac am yr adborth.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Datganiad Cymhwysedd Ymddiriedolwr

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

### Trustee Eligibility Declaration

**PLEASE COMPLETE USING BLOCK CAPITALS AND BLACK INK** *(complete additional forms if you have more than 4 trustees)*

**Organisation name** (Your organisation name as it appears in your governing document)

**Total number of trustees your organisation has**

| Trustee 1 | Trustee 2 | Trustee 3 | Trustee 4 |
|---|---|---|---|
| Name | Name | Name | Name |
| Signature: | Signature: | Signature: | Signature |
| Date D D M M Y Y Y Y | Date D D M M Y Y Y Y | Date D D M M Y Y Y Y | Date D D M M Y Y Y Y |

**Working with vulnerable groups**
Tick this box if your organisation works with vulnerable people (including children) and you declare that you have:

- Read and understood the Charity Commission's safeguarding guidance
- Carried out all trustee eligibility checks the law requires and on the basis of those checks are satisfied that the people acting as trustees are both eligible and suitable to act as trustees of this charity

**Trustee eligibility and responsibility**
By completing and signing this form, you declare that you:

- are willing to act as a trustee of the organisation named above
- understand your organisation's purposes (objects) and rules set out in its governing document
- are not prevented from acting as a trustee because you:
  - have an unspent conviction for one or more of the offences listed here*
  - have an IVA, debt relief order and/or a bankruptcy order
  - have been removed as a trustee in England, Scotland or Wales (by the Charity Commission or Office of the Scottish Charity Regulator)
  - have been removed from being in the management or control of any body in Scotland (under relevant legislation)
  - have been disqualified by the Charity Commission
  - are a disqualified company director
  - are a designated person for the purposes of anti-terrorism legislation
  - are on the sex offenders register
  - have been found in contempt of court for making (or causing to be made) a false statement
  - have been found guilty of disobedience to an order or direction of the Charity Commission

**Corporate Trusteeship**
Tick this box if your organisation has a corporate trustee (another organisation which acts as trustee such as a local authority) and its directors are making this declaration)

**Personal benefit**
If your organisation pays (or will pay) any trustee for being a trustee OR any trustee or person connected to them for providing goods and services, you declare that this will:

- be in the organisation's best interests
- be lawful and authorised
- help the organisation carry out its purposes (or be a necessary by-product of it carrying out its purposes)

**You also declare that:**

- the information you provide to the Charity Commission is true, complete and correct
- you understand that it's an offence under section 60(1)(b) of the Charities Act 2011 to knowingly or recklessly provide false or misleading information
- your organisation's funds are held (or will be held) in its name in a bank or building society account in England or Wales
- you will comply with your responsibilities as trustees - these are set out in the Charity Commission guidance 'The essential trustee (CC3)'
- (if applicable) the primary address and residency details you provide in a charity registration application are correct and you will notify the Charity Commission if they change

* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/820804/Disqualification_Reasons_Table_v2.odt

**Atodiad 2 – Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)**

Dylid pennu dyddiadau'r holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan gynnwys y Cyfarfod Festri Blynyddol, a'u hysbysebu fis Tachwedd y flwyddyn flaenorol. Mae Is-bwyllgorau'n cynnal eu cyfarfodydd rhwng cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**Templed Agenda Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)**

**Dyddiad, amser a lle**

1. Gweddi Agoriadol
2. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau
3. Diogelu
4. Gwrthdaro Buddiannau / Teyrngarwch
5. Rhybudd o Unrhyw Fater Arall a gytunwyd o flaen llaw gyda'r Cadeirydd
6. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf y Gynhadledd
7. Adroddiadau Is-bwyllgorau
    a. Cyllid
    b. Adeiladau
    c. Pwyllgor Gwaith
    d. Tîm Gweinidogaeth a Rennir
    e. Cofnodion Pwyllgorau Eglwysi
8. Materion yn Codi nad ydynt ar y rhaglen
9. Unrhyw eitemau i'w hanfon at Swyddog Cyfathrebu'r Esgobaeth
10. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf

**Cael adroddiadau at yr Ymddiriedolwyr cyn cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)**

1. Yr is-bwyllgorau'n cyfarfod (gydag agenda safonol) a chofnodion drafft yn cael eu paratoi
2. Cyflwyno'r cofnodion drafft i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr cyn cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.
3. Yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo neu eu cywiro. Pan fydd angen, anfonir argymhellion trwy e-bost at yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo cyn y cyfarfod nesaf.
4. Cofnodion Is-bwyllgorau'n cael eu cadarnhau yn dilyn cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**Presenoldeb trwy Ddirprwy**

Os bydd unrhyw aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) yn methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod, gall benodi dirprwy i fod yn bresennol yn y cyfarfod ac i bleidleisio ar ei rh/ran. Argymhellir y dylai'r dirprwy fod naill ai'n aelod o'r Rhestr Atodol neu, os nad oes rhestr o'r fath, fod yn Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Bydd penodi ddirprwy yn ddilys am un cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a dylai'r aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fod yn gwbl hyderus fod y dirprwy'n berson y gellir ymddiried ynddo / ynddi gan mai'r aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr fydd yn dal yn gyfrifol ynghylch sut mae'r dirprwy yn pleidleisio yn y cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y maen nhw'n bresennol ynddo.

## FFURFLEN DDIRPRWYO CYNHADLEDD ARDAL GENHADAETH

Nid wyf i .................................................... (enw'r aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr)

yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) ar .................................... (dyddiad)

**ac felly'n enwebu**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fel fy nirprwy ☐

NEU

.................................................... (enw'r Dirprwy)

.................................................... (e-bost y Dirprwy)

Llofnodwyd

.................................... Aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ....................................
(dyddiad)

*Cwblhewch y ffurflen hon a'i e-bostio at Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu Weinyddwr yr Ardal Genhadaeth. Os nad yw'n bosibl anfon fersiwn wedi'i llofnodi, e-bostiwch gopi heb lofnod. Dylid ddod â fersiwn wedi'i llofnodi o'r ffurflen i'r cyfarfod.*

**Atodiad 3 – Gwrthdaro Buddiannau Ymddiriedolwr**

Dylai pob Ardal Genhadaeth ddatblygu a mabwysiadu Polisi Gwrthdaro Buddiannau fel sail i ymarfer da.

Mae yna ddau fath o wrthdaro buddiannau – gwrthdaro ariannol a gwrthdaro teyrngarwch

**Gwrthdaro ariannol**

Mae'r math hwn o wrthdaro'n codi os yw ymddiriedolwr, neu berson neu sefydliad sy'n gysylltiedig â nhw, yn gallu cael arian neu rywbeth arall o werth o ganlyniad i benderfyniad ymddiriedolwr.

Mae gwrthdaro ariannol yn codi i ymddiriedolwr os yw eich elusen yn penderfynu:

- talu i'r ymddiriedolwr am wneud y swydd fel ymddiriedolwr (mwy na'u treuliau)
- cyflogi neu dalu'r ymddiriedolwr, neu berthynas, am waith yn yr elusen neu'i chwmni masnachu
- gwerthu, benthyg neu brydlesu asedau elusennol (tir neu unrhyw beth arall ym mherchnogaeth yr elusen) i'r ymddiriedolwr
- prynu, benthyg neu brydlesu asedau elusennol gan yr ymddiriedolwr
- prynu nwyddau gan fusnes ym mherchnogaeth yr ymddiriedolwr

Mae hynny'n dal i gael ei gyfrif fel gwrthdaro, hyd yn oed os pe byddai eich elusen yn cael gwerth da am ei harian.

**Gwrthdaro teyrngarwch**

Nid yw gwrthdaro teyrngarwch ynghylch arian na buddion eraill i ymddiriedolwr. Mae'n digwydd pan, am wahanol resymau eraill, efallai na fydd yr ymddiriedolwr yn gallu cymryd penderfyniadau sydd orau i'r elusen.

Ychydig o enghreifftiau cyffredin
Mae'n gallu digwydd os bydd penderfyniad yr elusen yn cynnwys person neu sefydliad sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwr. Er enghraifft:

- cyflogwr yr ymddiriedolwr
- elusen arall ble mae'n ymddiriedolwr
- y sefydliad a'u penododd yn ymddiriedolwr
- eu perthnasau neu eu ffrindiau

Gallai gwrthdaro godi oherwydd bod cyfrifoldeb (neu deyrngarwch) yr ymddiriedolwr i'r sefydliad neu berson arall yn gallu cystadlu gyda'r cyfrifoldeb i'r elusen.

Mae gwrthdaro'n gallu effeithio ar bob math o elusen. Ond, mae'n rhaid i chi eu cydnabod ac ymdrin â nhw'n briodol.

Rhaid i bob un ohonoch wneud hynny, nid dim ond yr ymddiriedolwr. Os na wnewch chi, ni fyddwch yn cyfarfod â'ch cyd-gyfrifoldeb cyfreithiol i gymryd penderfyniadau:

- yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'ch elusen yn unig
- heb fod eich buddiannau personol yn dylanwadu

I gael gwybodaeth ynghylch sut i ymdrin â gwrthdaro, ewch at Managing conflicts of interest in a charity - GOV.UK (**www.gov.uk**)

**Appendix 4 - How does the Property Sub-committee carry out its work?**

- Cwblhau a chynnal arolwg / cadw cofnod ar gyfer yr holl eiddo mae gan Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb drostyn nhw. Gallai hynny gynnwys eglwysi, eglwysi gwag, Eglwysi Pererinion, neuaddau eglwys, mynwentydd, tai (yn enwedig y rhai sy'n cael eu dal fel buddsoddiad ac sy'n cael eu gosod), Persondai (yn enwedig pan yn wag), eiddo masnachol (a allai fod yn cael eu dal fel buddsoddiad), meysydd parcio, Ffynhonnau Sanctaidd a gwahanol diroedd ac eiddo eraill.
- Gweithio gyda'r Archddiacon, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Archwilydd Eglwysi'r Esgobaeth a Swyddfa'r Esgobaeth i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer eiddo o fewn yr Ardal Genhadaeth, i'w gytuno a'i lofnodi gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a ffurfio argymhellion a phenderfyniadau yng ngoleuni hynny.
- Derbyn yr Archwiliadau pob Pum Mlynedd ar gyfer yr holl eglwysi yn yr Ardal Genhadaeth gyda'r Archddiacon, Ficer a Wardeiniaid a helpu sicrhau fod materion brys yn derbyn sylw yn ôl y gofyn.
- Cefnogi a chynghori'r Wardeiniaid Ardaloedd Cenhadaeth a'r Wardeiniaid Eglwys i ymgymryd â'u dyletswyddau mewn perthynas ag eiddo a sicrhau fod archwiliad arferol yn cael ei gynnal yn rheolaidd a bod cynllun cynnal a chadw wedi'i baratoi ar gyfer yr holl eiddo ac wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Ardal Genhadaeth i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Helpu i sicrhau fod gan Wardeiniaid yr Ardal Genhadaeth a'r Wardeiniaid Eglwys ddigon o wybodaeth i'w galluogi i berfformio eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli'r eiddo yn eu gofal.
- Adolygu'r holl gynlluniau i ddechrau ar atgyweiriadau nad ydyn nhw'n rhai brys neu brosiectau cyn y cais am ffacwlti (noder – yn aml byddwn yn argymell gofyn am gyngor cyn cais oddi wrth Archwilydd Eglwysi'r Esgobaeth a / neu Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth (DAC) cyn symud prosiect ymlaen i'r cyfnod cais llawn).
- Adolygu a ffurfio argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gyda goruchwyliaeth strategol, ar geisiadau arfaethedig i'r ffacwlti cyn eu cyflwyno
- Sicrhau fod yr holl adeiladau wedi'u hyswirio'n briodol

### Atodiad 5 – Goruchwylio Prosiectiau

Mae Bwrdd Eiddo'r Esgobaeth wedi gosod y gofyniad ar gyfer y trefniadau goruchwylio canlynol ar gyfer unrhyw brosiect adeiladu.

Cyn dechrau ar unrhyw brosiect adeiladu, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) sicrhau yr ymgynghorwyd â'r Is-bwyllgor Eiddo a'r Is-bwyllgor Cyllid. Dylai'r ymgynghoriad ganolbwyntio ar a yw'r brosiect yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn cyfarfod ag amcanion strategol yr Ardal Genhadaeth. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros benderfynu a fyddai ateb amgen yn fwy priodol.

Mae gan aelodau'r Is-bwyllgor Eiddo (neu Bwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth neu Fwrdd yr Ymddiriedolwyr pan nad oes Is-bwyllgor Eiddo) hawl i fynd i weld prosiect a chadw llygad ar ei gynnydd.

Mae'n rhaid i gontractwyr wybod yn iawn pwy yw'r cyswllt dynodedig y cleient, ac mai dim ond y cyswllt cleient sy'n gallu cymryd penderfyniadau ynghylch y prosiect.

Rhaid penodi penseiri i oruchwylio darparu prosiectau sy'n costio dros £10,000.

Rhaid i'r penseiri dderbyn arweiniad yn amlinellu llywodraethiant yr Ardal Genhadaeth ac â phwy y dylid cysylltu â nhw os bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r prosiect (bydd y person(au) yn cael eu hadnabod fel y cyswllt cleient). Bydd hyn yn cael ei ddarparu gan Swyddog Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth (DAC) ar ôl cais llwyddiannus am ffacwlti (**gweler Atodiad 6**).

Os nad oes pensaer yn goruchwylio darpariaeth y prosiect, y Swyddog Eglwys sy'n atebol am ddarparu'r prosiect, gan gynnwys iechyd a diogelwch o gwmpas y gwaith. Fe ddylai'r Swyddog dderbyn a llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth (**gweler Atodiad 7**).

Mae gwaith brys yn cael ei gyfeirio at yr Archddiacon pob amser a bydd yn cynghori ar yr angen am oruchwyliaeth os oes angen.

Trefniadau Goruchwylio ar gyfer Prosiectau Wedi'u Cynllunio

| Cost y Prosiect | Trefniadau Goruchwylio |
|---|---|
| Hyd at £5,000 | Swyddog Eglwys |
| £5,000 - £10,000 | Swyddog Eglwys ac aelod o'r Is-bwyllgor Eiddo (neu Fwrdd yr Ymddiriedolwyr neu Bwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth)* |
| Dros £10,000 | Pensaer yn gweithio gyda chynrychiolydd yr Is-bwyllgor Eiddo (neu Fwrdd yr Ymddiriedolwyr neu Bwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth)* |

** Gall Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ddirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r prosiect i un neu ragor o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu'r Pwyllgor Gwaith.*

Dylai penderfyniadau ynghylch cynnal a chadw neu wella unrhyw eiddo yn yr Ardal Genhadaeth cael eu cymryd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Eglwys perthnasol, ond Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am adeiladau.

### Dolenni Defnyddiol

Mae rhagor o fanylion ynghylch sut mae Eiddo Ardal Genhadaeth yn cael ei reoli ar gael yn
Pecyn Gwaith 7 – Materion Eiddo
**https://dioceseofstasaph.org.uk/2020-toolkits/**

Mae yna arweiniad eang ar gael ar dudalennau Eiddo gwefan y Corff Gweddilliol.
**https://www.churchinwales.org.uk/en/clergy-and-members/church-property/**

### Atodiad 6 – Canllaw i Benseiri yn dilyn Cymeradwyaeth y Facwlti

Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth (sy'n cael ei alw'n aml y Gynhadledd Ardal Genhadaeth – MAC) yw'r corff cyfreithiol sy'n gallu comisiynu a chymeradwyo gwariant dros ac yn uwch na'r terfyn a gytunwyd ar gyfer pob eglwys (i'w gytuno gan bob un Ardal Genhadaeth – awgrymir uchafswm o £5,000).

Gall Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth enwebu cynrychiolydd (cynrychiolwyr) fel y 'cyswllt cleient'. Ni fydd gan unrhyw berson neu gorff arall, ar wahân i'r 'cyswllt cleient' hwnnw awdurdod i gyfarwyddo na chomisiynu gwaith a fydd yn codi'r gost ariannol dros y trothwy hwnnw.

Rhaid i'r holl waith cael ei wneud yn unol â Thelerau Penodi RIBA neu RICS ac ni ddylid cychwyn at y gwaith nes y bydd y telerau a'r ffioedd cysylltiedig a chostau wedi'u cytuno gydag Ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth. Mae'n rhaid i hynny gynnwys adrodd yn ôl ar gynnydd yn rheolaidd ac yn brydlon yn erbyn y rhaglen a'r gyllideb.

***Rhaid beidio â rhagdybio fod arian ychwanegol dros ben cyllideb y prosiect ar gael ac mae'n rhaid codi unrhyw bryderon neu broblemau gyda'r Ymddiriedolwyr gynted â bo modd.***

Yn unol â'r cytundeb, y Pensaer fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad llawn â'r holl ofynion statudol yn ystod cyfnodau y dylunio a gweithredu'r prosiect, gan gynnwys er enghraifft, Rheoliadau Adeiladu, Cynllunio, Adeilad Rhestredig a chaniatadau Ffacwlti, a Deddfau CDM ac Iechyd a Diogelwch.

## Atodiad 7 – Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer Swyddog Eglwys

Pan fydd prosiect adeiladu'n cael ei reoli gan Bensaer, does dim rhaid cael Memorandwm o Ddealltwriaeth. Bydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth (DAC) yn rhoi canllawiau i'r pensaer ynghylch y cyfyngiadau gwario, adrodd yn ôl a goruchwyliaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) pan fydd y ffacwlti'n cael ei ganiatáu.

Mae'r ddogfen hon at ddefnydd Swyddog Eglwys sy'n dymuno rheoli prosiect sy'n debyg o gostio rhwng £5,000 a £10,000.

Pam fod angen Memorandwm o Ddealltwriaeth?
Mae yna nifer o fanteision i ffurfioli partneriaeth trwy Femorandwm o Ddealltwriaeth.

O ran atebolrwydd a llywodraethiant, mae'n:

- egluro beth mae pob un yn ei gyfrannu a beth mae pob un yn cael allan a'r amserlen am wneud felly
- gyfle i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cynhadledd Ardal Genhadaeth) archwilio a chytuno ar brosiect – mae hynny'n gallu bod o gymorth i ennill cefnogaeth yr Ymddiriedolwyr ac i gynnal y prosiect trwy unrhyw newidiadau i bersonél Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC)
- dogfen sy'n gallu cael ei rhannu gyda'r Contractwr, Pwyllgor Eglwys, Warden Eglwys a rhanddeiliaid eraill sy'n egluro beth mae'r prosiect yn ei olygu a sut mae'u Heglwys / Ardal Genhadaeth yn elwa o, ac yn cyfrannu at, y prosiect.

O ran cynaliadwyedd, mae'n:

- ddull o gyfuno'r prosiect gyda strategaeth ac ethos yr Ardal Genhadaeth
- gyfle i ddiogelu'r prosiect trwy sicrhau trosglwyddiadau trefnus os bydd newidiadau yn yr Ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr
- gyfle i rannu cyfrifoldeb ar gyfer darparu, gan sicrhau fod pawb sydd â chyfrifoldeb am asedau'r Ardal Genhadaeth yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.

O ran gwerthuso, mae'n gyfle i gynnwys gwerthusiad o effaith y prosiect o'r cychwyn ac i ddangos yn glir yr hyn mae'n gobeithio ei wireddu.

## Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer Prosiect Adeiladu yn cael ei reoli gan Swyddog Eglwys (yn costio rhwng £5,000 a £10,000).

***Y ddogfen hon i'w deall a'i llofnodi gan y ddau barti cyn i'r prosiect adeiladu ddechrau.***

Yr Ardal Genhadaeth ***[enw]*** yn cael ei chynrychioli gan ***[enw'r prif gyswllt]*** (a adnabyddir fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) / Is-bwyllgor Eiddo). ac ***[Enw'r Swyddog Eglwys] [sy'n goruchwylio'r prosiect]*** (a adnabyddir fel y Swyddog Eglwys) (yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel y Cyfranogwyr).

Mae manylion y cais ffacwlti sydd wedi'i gymeradwyo yn Anecs A.

Mae'r Cyfranogwyr wedi dod i'r ddealltwriaeth ganlynol:

### Diben

Diben y memorandwm yw cefnogi [Enw'r Ardal Genhadaeth] er mwyn ei galluogi i weithredu'r prosiect y cyfeirir ato yn Anecs A a sicrhau fod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu Is-bwyllgor Eiddo'n derbyn y newyddion diweddaraf am unrhyw newidiadau i'r prosiect a allai achosi costau ychwanegol neu effeithio ar weithredu neu gynaliadwyedd yr Ardal Genhadaeth.

Mae amcanion a gweithgareddau'r prosiect, o dan yr enw [teitl y prosiect], yn Anecs A.

Y Swyddog Eglwys fydd yn rheoli'r prosiect yn unol â'r canllawiau sydd yn y memorandwm hwn.

Ni fydd y Swyddog Eglwys yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau fel rhan o'r prosiect hwn ar wahân i'r rhai a ddisgrifir yn Anecs A heb gymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo.

### Hyd

Daw'r memorandwm hwn i rym ar o'r i'r ddau Gyfranogwr ei lofnodi ac mae'n weithredol am hyd y prosiect.

### Trefniadau ariannol

Cyfanswm costau cymeradwy'r Prosiect yw ***[arian a swm].***

Nid oes sicrwydd y bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo'n ariannu unrhyw waith sydd dros y swm uchod, a bydd yn dibynnu ar gymeradwyaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo.

Y Swyddog Eglwys fydd yn cynnal cofnodi cywir o'r gwariant a bydd yn cadw'r holl anfonebau, derbyniadau a chofnodion cyfrifeg am hyd at chwe mlynedd ac yn sicrhau fod y rhain ar gael i'w harchwilio gan Fwrdd  yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo neu archwilydd annibynnol yn ôl y gofyn.

### Diwygio'r memorandwm

Bydd unrhyw newid i'r memorandwm hwn yn cael ei benderfynu gan y ddau Gyfranogwr a bydd yn ysgrifenedig.

### Adrodd

Ar ***[Dyddiad]*** a phob 3 mis wedyn, bydd y Swyddog Eglwys yn cyflwyno adroddiad byr i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo am y gwaith a wnaed ar y prosiect ac asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y ddogfennau prosiect gwreiddiol, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol.

Ar ***[Dyddiad]*** a phob 3 mis wedyn, bydd y Swyddog Eglwys yn cyflwyno datganiad yn dangos sut y cafodd arian y prosiect ei wario, gan gynnwys unrhyw wariant ychwanegol a gytunwyd, ble bo'n berthnasol.

### Terfynu

Gall Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo ddod â'u cyfranogaeth yn y trefniant hwn i ben trwy roi un mis o rybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Eglwys, o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Methu â gweithredu'r prosiect yn unol â'r memorandwm hwn
- Methiant arwyddocaol gan y Swyddog Eglwys i gyfarfod ag unrhyw un o'r ymrwymiadau yn y memorandwm hwn
- Force Majeure

### Setlo Anghydfod

Bydd unrhyw anghydfod a fydd yn codi ynghylch dehongli neu weithredu'r memorandwm hwn yn cael ei setlo mewn ymgynghoriad rhwng y cyfranogwyr a'r Archddiacon os oes angen.

### Manylion cyswllt

Bydd y Swyddog Eglwys a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo'n rhoi manylion cyswllt eu gilydd i'r cynrychiolydd gyda chyfrifoldeb am dalu sylw i'r ymholiadau arferol o ddydd i ddydd.

### Cyfrifoldeb dros Staff

Bydd y Swyddog Eglwys yn sicrhau goruchwyliaeth digonol o, a gofal am y contractwyr hynny sy'n gweithio ar y prosiect a bydd yn gyfrifol am sicrhau yswiriant digonol a bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn lle.

### Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (MAC) neu'r Is-bwyllgor Eiddo:

Llofnod: ..............................

Enw: ..............................

Swydd: ..............................

Dyddiad: ..............................

### Llofnodwyd gan y Swyddog Eglwys:

Llofnod: ..............................

Enw: ..............................

Swydd: ..............................

Dyddiad: ..............................






SIT
HERE
AND PRAY
SAFELY









